# PWYLLGOR SAFONAU, 5 GORFFENNAF, 2010

**YN BRESENNOL:**

**AELODAU ETHOLEDIG:** Y Cynghorwyr Margaret Griffith, a Keith Greenly –Jones.

**AELODAU ANNIBYNNOL** : Mr John Pollard, (Cadeirydd), Mr Gwilym Ellis –Evans, Mr Sam Soysa a Mr Gwyn Williams.

**AELOD PWYLLGOR CYMUNEDOL:** Mr David Clay.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Dilys Phillips, (Swyddog Monitro), Sion Huws, (Swyddog Priodoldeb ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

**ERAILL A WAHODDWYD I'R CYFARFOD :** Arweinyddion/cynrychiolwyr y grwpiau gwleidyddol.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Stephen Churchman.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Chwefror, 2010, fel rhai cywir.

**3. ARWEINYDDION GRWPIAU GWLEIDYDDOL**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i arweinyddion/cynrychiolwyr y grwpiau gwleidyddol oedd yn bresennol i drafod y gwaith a ellir ei wneud mewn cysylltiad â chynnal safonau ymddygiad.

Yn bresennol i drafod y mater gydag aelodau'r Pwyllgor 'roedd y Cynghorwyr: Dyfed Edwards, J..R. Jones, Aeron M. Jones a Roy Owen.

Yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at draddodiad o gydweithio o fewn Cyngor Gwynedd a nodwyd fod hyn yn parhau i gael ei hybu. Fodd bynnag, cytunwyd fod rhai problemau yn ymwthio i'r amlwg a phwysleisiwyd yr angen i warchod enw da'r Cyngor.

Cyfeiriwyd at rôl y Pwyllgor Safonau i ymdrin â materion yn fewnol yn ogystal â'r modd y gall arweinyddion gwleidyddol gynnal trafodaethau gyda'u cyd-aelodau a swyddogion fel y gellir ymdrin ag unrhyw anghydfod. Pwysleisiodd Arweinydd y Cyngor, Y Cynghorydd Dyfed Edwards y dylid ymdrin ag anghytundeb mewn ffordd broffesiynol a chwrtais.

Awgrymwyd y dylid cadw trafodaethau a dadleuon o fewn ffiniau Siambr y Cyngor ac osgoi 'r posibilrwydd o greu dadleuon cyhoeddus. Ond pwysleisiodd un cynghorydd fod trosglwyddo gwybodaeth i'r cyhoedd yn rhan bwysig o ddemocratiaeth. Yn

gyffredinol, derbyniwyd fod modd i gynghorwyr gyflwyno datganiadau i'r wasg, ond nodwyd yr angen i wneud hynny heb ddwyn anfri ar y Cyngor, swyddogion y Cyngor na chyd-aelodau.

O safbwynt dulliau o bleidleisio mewn cyfarfodydd 'roedd un o'r arweinyddion yn awyddus i bawb sylweddoli mai Cyngor Gwynedd yn ei gyfanrwydd oedd yn gwneud penderfyniadau ac na ddylid cysylltu penderfyniadau gyda rhaniadau gwleidyddol. Ychwanegodd fod y drefn o 'bleidlais gofrestredig' yn bodoli os oedd aelod unigol yn dymuno ei defnyddio i danlinellu ei farn.

Croesawodd y swyddog Monitro'r modd y manteisiwyd ar y cyfle i leisio barn a chredai fod y drafodaeth wedi bod yn fuddiol fel sylfaen ar gyfer yr eitem ganlynol ar y rhaglen sef, **Protocol Lleol.**

**4. PROTOCOL LLEOL**

Mewn ymateb i gais a wnaed gan aelodau'r Pwyllgor yn eu cyfarfod ar 9 Chwefror, 2010, cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Monitro ynglŷn â phrotocol lleol fyddai'n fodd i ddatrys cwynion o gam-ymddwyn gan aelod yn erbyn aelod arall drwy drefn leol gan osgoi'r cam o fynd â'r gŵyn i'r Ombwdsmon.

'Roedd aelodau'r Pwyllgor o'r farn y byddai'n fuddiol cael trefn leol ar gyfer datrys rhai cwynion llai difrifol yn gyflym ac effeithiol.

Cyflwynwyd drafft cyntaf o ddogfen 'Safon Gwynedd' gan y Swyddog Monitro a phwysleisiwyd nad oedd bwriad iddi gymryd lle'r Còd Ymddygiad. Yn hytrach y bwriad oedd ei chael i weithio ochr yn ochr â'r Còd Ymddygiad.

Pe byddai 'Safon Gwynedd' yn cael ei mabwysiadu'r bwriad fyddai i unrhyw dramgwydd gael ei drin yn yr un ffordd a'r drefn leol ar gyfer datrys cwynion rhwng aelodau a swyddogion.

Atgoffwyd aelodau o'r drefn honno sy'n dilyn tri cham sef:

1. Cyngor gan y Swyddog Monitro neu ei staff
2. Cyfarfod anffurfiol rhwng yr aelodau
3. Gwrandawiad ffurfiol gerbron y Pwyllgor Safonau

Y gosb y gallai'r Pwyllgor Safonau ei defnyddio ydy cerydd.

Pwysleisiodd y Swyddog Monitro mai drafft cyntaf o'r ddogfen 'Safon Gwynedd' oedd yn cael ei gyflwyno a byddai angen ymgynghori arni cyn ei chyflwyno i'w mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor llawn.

'Roedd dogfen 'Safon Gwynedd' yn egluro'r safonau ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth gynghorwyr Cyngor Gwynedd wrth ymdrin â'i gilydd.. Nodwyd y dylid ei darllen ar y cyd hefo'r Còd Ymddygiad a'r Protocol Aelod-Swyddog.

O fewn y ddogfen rhoddwyd sylw i:

- Ymddygiad cyhoeddus
- Ymddygiad mewn cyfarfodydd
- Cyfrinachedd
- Aelodau lleol.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau leisio barn a gofyn cwestiynau ynglŷn â'r ddogfen.

Credai Arweinydd y Cyngor fod y Protocol yn gryno a chlir ac yn ddatblygiad pwysig.

O safbwynt 'cyfrinachedd', awgrymwyd gan aelod o'r Pwyllgor y dylid ychwanegu rhan i'r Protocol fel y byddai'r cymal yn darllen fel a ganlyn : *Disgwylir i aelodau o Gyngor Gwynedd beidio rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol i'r wasg na'r cyhoedd na defnyddio'r wybodaeth at ddibenion eraill.*

Wrth gyfeirio at y rhan yn ymdrin ag 'ymddygiad cyhoeddus' awgrymodd aelod y gellid cynnwys cymal yn nodi'r angen i '*ddangos ymroddiad i'r egwyddorion o gydraddoldeb ac amrywiaeth.'* Cytunwyd y byddai hyn yn dderbyniol

Yn y drafft a gyflwynwyd cyfeiriwyd at yr angen i ddychwelyd papurau cyfrinachol neu eu dinistrio. Mynegwyd peth pryder gan aelodau o safbwynt dinistrio'r papurau cyfrinachol ac awgrymwyd y byddai'n well i'r cyfan gael eu dychwelyd.

Cyfeiriwyd yn y drafft o'r ddogfen at yr angen i aelodau gydweithio gydag aelodau wardiau cyfagos er lles y gymdogaeth. Cefnogwyd hyn a nodwyd mai mater fyddai hyn o ffurfioli'r hyn sy'n digwydd eisoes.

Rhoddwyd sylw i'r ffaith mai cerydd fyddai'r gosb y gallai'r Pwyllgor Safonau ei defnyddio. Gofynnwyd a fyddai hynny'n ddigonol, ond 'roedd y mwyafrif yn credu y byddai cael cerydd swyddogol gerbron cyd-aelodau yn gosb sylweddol i unrhyw un. Nodwyd ymhellach y gellid trosglwyddo mater i'r Ombwdsmon, os mai dyna oedd dymuniad y Pwyllgor Safonau. Yn ogystal cytunwyd y dylid cyfeirio materion i'r Ombwdsmon pe byddai aelod yn mynd yn groes i ofynion y Còd Ymddygiad fwy na dwywaith.

Er nad oedd yn anghytuno â'r Protocol Lleol, mynegwyd pryder gan Arweinydd y Blaid Annibynnol, y Cynghorydd Roy Owen, oherwydd ei fod yn credu fod gormodedd o bwysau'n cael ei roi ar gynghorwyr. Credai y byddai sefyllfa'n cael ei chreu lle na fyddai pobl ifanc gydag unrhyw ddiddordeb mewn bod yn aelod o Gyngor Gwynedd. Yn hytrach nag ystyried rheolau a chosb, credai y dylid mynd ati i ddatrys problemau sy'n bodoli.

**PENDERFYNWYD:**

**(i) Cymeradwyo'r drafft o ddogfen 'Safon Gwynedd' gan ei addasu yn unol â'r sylwadau a wnaed gan aelodau'r Pwyllgor Safonau sef:**

- **Bod y rhan yn ymdrin ag ymddygiad cyhoeddus yn cynnwys y cymal 'disgwylir i aelodau o Gyngor Gwynedd ddangos ymroddiad i'r egwyddorion o gydraddoldeb ac amrywiaeth.**

- **Bod ychwanegiad yn cael ei wneud i gymal o fewn yr adran ar gyfrinachedd fel ei fod yn darllen fel a ganlyn : Disgwylir i aelodau o Gyngor Gwynedd beidio rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol i'r wasg na'r cyhoedd na defnyddio'r wybodaeth at ddibenion eraill.**

- **Nodi y dylid dychwelyd y cyfan o'r papurau cyfrinachol yn hytrach na rhoi'r hawl i aelodau'r Cyngor i'w dinistrio.**

- **Nodi y dylai achosion pryd y mae aelodau'n ymddwyn yn groes i'r Protocol Lleol fwy na dwywaith yn cael eu cyfeirio at yr Ombwdsmon**

**(ii) Bod y Swyddog Monitro yn cymryd y camau priodol ar gyfer mabwysiadu'r Protocol Lleol yn ffurfiol trwy ymgynghori gyda'r grwpiau gwleidyddol a Swyddfa'r Ombwdsmon cyn ei chyflwyno gerbron y Cyngor llawn**

**(iii) Bod y ddogfen yn cael ei hystyried ymhellach gan y Pwyllgor Safonau pe byddai angen**

## 5. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro yn hysbysu'r aelodau o'r datblygiadau diweddaraf parthed honiadau yn erbyn aelodau.

Gwnaed cwyn yn erbyn un cynghorydd ar sail y dylai fod wedi datgan diddordeb oherwydd bod person oedd ynghlwm â'r mater gerbron y pwyllgor yn aelod o'r un capel. Gyda'r achos yma penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio gan nad oedd y cysylltiad, yn ei farn ef, yn un digon agos i fod yn '*gysylltiad personol agos'* O dan y còd. O ganlyniad nid oedd angen i'r aelod fod wedi datgan buddiant.

Nodwyd fod 5 cwyn arall ar agor ar hyn o bryd. 'Roedd ymchwiliadau'n parhau ynglŷn â 4 o'r rhain gyda'r un arall wedi ei gyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

## 6. CANLLAWIAU'R OMBWDSMON AR Y CÒD YMDDYGIAD

Yn dilyn cyhoeddi Canllawiau'r Ombwdsmon ar y Còd Ymddygiad nodwyd gan y Swyddog Monitro y gallasai hyfforddiant fod yn fuddiol fel y gellir cyfleu'r canllawiau mewn dull syml ac osgoi cymhlethdodau wrth ddehongli'r Còd Ymddygiad.

Ychwanegodd y gellid rhoi cyfle i drafod unrhyw anawsterau trwy gynnal cyfarfodydd. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Pwyllgor i leisio barn ac awgrymu pa gamau i'w cymryd.

Galwyd ar i gynghorau tref a chymuned yn ogystal â chyrff eraill gael cyfle i fod yn rhan o'r hyfforddiant. Mynegwyd pryder gan aelod gan nad oedd yr holl gynghorau tref a chymuned wedi derbyn copi o'r canllawiau. Cadarnhawyd y byddai'r swyddogion yn ymchwilio i'r mater yma.

Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau fod holl aelodau'r Cyngor yn ymwybodol o'r Canllawiau ar y Còd Ymddygiad ac y dylid ystyried dulliau effeithiol o gyflwyno'r hyfforddiant.

'Roedd aelodau'n credu y byddai'n fuddiol iddynt hwy, fel aelodau'r Pwyllgor Safonau, dderbyn hyfforddiant yn gyntaf ac awgrymwyd y gellid cydweithio gydag awdurdodau eraill fel y gellid gwneud hyn yn unol drwy Ogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD y byddai'n fuddiol darparu hyfforddiant addas ar Ganllawiau'r Ombwdsmon ar y Còd Ymddygiad a bod ymchwiliadau'n cael eu gwneud i'r posibilrwydd o gydweithio ar gyfer hyfforddi aelodau pwyllgorau safonau ar draws Gogledd Cymru.**

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Priodoldeb a thynnwyd sylw arbennig at gynnydd o 24% yn nifer y cwynion am ymddygiad aelodau awdurdodau lleol. ‘Roedd yr Ombwdsmon yn nodi yn yr adroddiad fod hwn yn achos pryder iddo mewn blwyddyn pan oedd ymddiriedaeth y cyhoedd mewn cynrychiolwyr etholedig yn thema gyson.

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb ymhellach ar natur y cwynion Còd Ymddygiad a gafwyd. O’r meysydd yn y Còd yr honnwyd bod aelodau wedi mynd yn groes iddynt, ‘hyrwyddo cydraddoldeb a pharch’ oedd yr un mwyaf cyffredin. ‘Roedd hyn yn cyfrif am 38% o’r cwynion, a nodwyd mai 34% oedd y ffigwr cyfatebol yn 2008/09.

O safbwynt Gwynedd un achos yn unig a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon a chyda hwn penderfynwyd peidio ag ymchwilio. ‘Roedd aelodau’r Pwyllgor Safonau o’r farn fod hyn yn adlewyrchu gwaith effeithiol y swyddogion a diolchwyd iddynt am y modd effeithiol y maent yn ymdrin â phob achos.

Mewn ymateb dywedodd y Swyddog Monitro fod y safonau o fewn Cyngor Gwynedd yn dderbyniol iawn ac nad oes llawer o waith yn cael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor Safonau.

Fel cam posib i’w gymryd, awgrymodd y Swyddog Monitro y gellid ystyried y posibilrwydd o gynnal cynhadledd ar gyfer Pwyllgorau Safonau ar raddfa gweddol leol megis Gogledd Cymru. Ychwanegodd y byddai cyfarfod o’r fath yn gyfle i aelodau allu rhannu profiadau a dysgu oddi wrth y naill a’r llall.

Cyfeiriodd aelod at gymal o fewn Adroddiad yr Ombwdsmon oedd yn cyfeirio at y bwriad i gynnal nifer o seminarau ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau safonau, swyddogion monitro a chlercod cynghorau cymuned. Awgrymodd y gallasai Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd fanteisio ar y seminarau.

Bydd y seminarau’n ymdrin â chanllawiau a ddatblygwyd i aelodau awdurdodau lleol ar y Còd Ymddygiad Enghreifftiol a gyhoeddwyd yn 2008. Paratowyd y canllawiau yn dilyn ymgynghoriad cychwynnol pryd y rhoddwyd cyfle i awdurdodau lleol nodi pa agweddau ar y Còd y byddent yn gwerthfawrogi cael canllawiau arnynt.

Cadarnhawyd y bydd ymholiadau pellach yn cael eu gwneud i’r mater yma.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi’r adroddiad.**

## 8. CEISIADAU AM OLLYNGIADAU

### (8a) Cais am ollyngiad gan y Cynghorydd Julian Kirkham – aelod o Gyngor Cymuned Arthog.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Priodoldeb yn egluro fod y Cynghorydd Kirkham yn cynrychioli Cyngor Cymuned Arthog ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw sy’n un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd.

Un o swyddogaethau statudol Cyngor Gwynedd yw trwyddedu cychod sy’n cario teithwyr. Rhoddir ‘Trwydded Cychwr’ i’r sawl sy’n llywio cwch o’r fath a ‘Thrwydded Perchennog’ i berchnogion y cychod.

Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol ym mis Mawrth eleni, cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Morwrol ynglŷn â gofynion trwydded fferi. Yn unol â chais aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Morwrol yn ymdrin â'r awgrym y dylai ymgeiswyr am Drwydded Cychwr feddu ar Drwydded Meistr Cwch yr M.C.A. (Maritime and Coastguard Agency).

Nodwyd bod y Cynghorydd Kirkham yn dal Trwydded Cychwr a Thrwydded Meistr Cwch, ac oherwydd hyn datgelodd y buddiant a gadael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

Gwnaed cais ganddo i gymryd rhan lawn mewn trafodaethau a phleidleisio ar faterion trwyddedu yn y dyfodol ar sail ei arbenigedd yn y maes.

Mynegwyd pryder gan aelodau y gallasai buddiant y Cynghorydd Kirkham ddylanwadu, neu ymddangos fel petai'n dylanwadu, ar benderfyniadau hyd yn oed pe bai ond yn lleisio barn. Mewn ymateb i sylwadau a wnaed, esboniodd y Swyddog Monitro na fydd materion o'r Pwyllgor Ymgynghorol yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn. Ychwanegodd fod y Pwyllgor Ymgynghorol gyda dylanwad er mai prin yw eu dyletswydd i adrodd yn ôl.

Cyfeiriodd aelodau at ran o gais y Cynghorydd Kirkham lle 'roedd yn datgan ei fod yn hynod bryderus ynglŷn â safonau trin cychod a materion diogelwch yn gyffredinol yn ystod tymor 2009.

'Roedd aelodau'r Pwyllgor Safonau o'r farn y dylai'r Cynghorydd Kirkham fod wedi ei ddwyn i sylw'r Swyddog Morwrol lawer ynghynt.

**PENDERFYNWYD:**

**(i)** **gwrthod cais am ollyngiad ar sail fod gan y Cynghorydd Julian Kirkham fuddiant sylweddol yn y mater dan sylw a oedd hefyd o natur ariannol. 'Roedd canfyddiad aelodau o'r cyhoedd a'u ffydd fod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn ddiduedd yn holl bwysig. Fel canlyniad 'roedd y gwrthdaro rhwng y buddiannau yn yr achos hwn yn rhy arwyddocaol i ganiatáu gollyngiad.**

**(ii)** **bod gwybodaeth o'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Kirkham ynglŷn â safonau trin cychod a materion diogelwch yn gyffredinol yn cael eu trosglwyddo i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.**

**(8b) Cais am ollyngiad gan y Cynghorydd Stephen Churchman**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Priodoldeb yn cyfeirio at gais am ollyngiad a wnaed gan y Cynghorydd Stephen Churchman sy'n cynrychioli Ward Dolbenmaen ar Gyngor Gwynedd.

Adroddwyd fod cais y Cynghorydd Churchman yn berthnasol i'r adolygiad ysgolion cynradd yn Nalgylch Ysgol Eifionydd, Porthmadog. Nodwyd fod y cynghorydd yn ofalwr maeth i ddisgybl yn Ysgol Gynradd Garndolbenmaen a'i fod hefyd yn aelod o Fwrdd Llywodraethol yr ysgol.

Gwnaed y cais ganddo i gymryd rhan mewn trafodaethau ynglŷn ag Ysgol Gynradd Garndolbenmaen mewn cyfarfodydd o'r Panel Dalgylch. Yn ogystal 'roedd am gael hawl i siarad, ond nid pleidleisio, mewn trafodaethau cyffredinol, ond nid mewn cysylltiad ag Ysgol Gynradd Garndolbenmaen yn benodol, yng nghyfarfodydd y Cyngor.

Adroddodd y Swyddog Monitro fod canllawiau wedi eu gosod gan y Pwyllgor Safonau mewn cysylltiad â materion yn gysylltiedig ag adolygiad ysgolion cynradd. Ychwanegodd fod rhai sefyllfaoedd yn bur gymhleth, a bod hyn wedi dod i'r amlwg yn Nalgylch Ysgol y Berwyn lle y gallai'r adolygiad effeithio ar sawl ysgol.

Y cyngor a roddwyd i aelodau hyd yma oedd bod modd iddynt gymryd rhan gyffredinol yn y drafodaeth ond dim mewn cysylltiad â'r ysgol benodol lle 'roedd diddordeb ganddynt.

'Roedd y Cynghorydd Churchman yn nodi ei fod yn cyflwyno'r cais fel bod modd iddo, fel aelod o Gyngor Gwynedd, leisio barn ei etholwyr.

Ni welai aelodau'r Pwyllgor Safonau fod yna unrhyw reswm dros wrthod cais y Cynghorydd Churchman.

**PENDERFYNWYD caniatáu, dan baragraffau (ch) ac (ff) o'r rheoliadau, y cais i'r aelod gymryd rhan yn y drafodaeth ynglŷn ag Ysgol Gynradd Garndolbenmaen yn y Panel Dalgylch ac i siarad (ond nid pleidleisio) mewn trafodaethau cyffredinol ar ddalgylch Ysgol Eifionydd mewn cyfarfodydd y Cyngor oni bai fod y mater dan ystyriaeth yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag Ysgol Gynradd Garndolbenmaen.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11am a daeth i ben am 1:15pm